

Mantell

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 66 • Gorffennaf 2014

Cynnwys

O Mantell	2
Newyddion	3
Canolfan Gwirfoddoli	4
Plant a Phobl Ifanc	5
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	6
Teulu Ni/B2C	7
Ffrindia'	8
Gwneud y Cysylltiadau/ Cymunedau Mentrus	9
Cymunedau Mentrus	10
Cyfleoedd Ariannu	11
Digwyddiadau ac Hyfforddiant	12



ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymerchedd Ewrop


Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund



ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu, Rhannbarthol Ewrop

Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund



PRYNWYD!

Gweler Pwt y Prif Swyddog ar dudalen 2 am hanes prynu swyddfa Mantell Gwynedd yn Dolgellau.



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

MANTELL GWYNEDD

Swyddfa Gofrestredig:
23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon,
Gwynedd, LL55 1AB.
Ffôn: 01286 672626 • Ffacs: 01286 678430

E-bost: yholiadau@mantellgwynedd.com

Swyddfa Gofrestredig:
Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau,
Gwynedd, LL40 1SB.
Ffôn: 01341 422575 • Ffacs: 01341 422147

Gwefan: www.mantellgwynedd.com



STAFF

MANTELL GWYNEDD

Prif Swyddog:

Bethan Russell Williams

TÎM DATBLYGU A GWASANAETHAU

Uwch Swyddog Datblygu a Gwasanaethau:

Delyth Vaughan

Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol:

Eleri Lloyd

Swyddog Gwneud y Cysylltiadau:

Carol Evans

Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc

Paul Edwards

PROSIECT TEULU NI

Rheolydd Prosiect Teulu Ni:

Mair Richards

CYFEILLION TEULU

Arfon

Dawn Jones, Janet Jones

Dwyfor

Llinos Owen Jones

Meirionnydd

Iona Williams

TÎM IECHYD

Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Sioned Llwyd Larsen

Rheolydd Prosiect Ffrindia':

Carys Williams

Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Arfon:

Alan Thomas

Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Dwyfor:

Dawn Thomas

Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Meirionnydd

Mirain Fflur Roberts

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth

Tîm Cyllid a Gweinyddu:

Ceren Williams

Swyddog Gweinyddol:

Bronwen Rowlands

Cynorthwy-ydd Cyllid:

Tracy Williams

Cynorthwy-ydd Gweinyddol:

Tracy Lynne Rotheram

Cynorthwy-ydd Gweinyddol:

Ellen ap Dafydd

Derbynnydd:

Hilary Margaret Jones

TÎM CANOLFAN GWIRFODDOLI

Cydlynnydd Gwirfoddoli

Carwyn Humphreys

Swyddog Gwirfoddoli:

Ann Angharad Fleming

Swyddog Gwirfoddoli:

Gwenllian Glyn Dafydd

Nodyn gan y Prif Swyddog

Dyma ni, yng nghanol bwrlwm yr Haf a'r tywydd braf, ac fel y gwelwch o gynnwys y newyddlen hon mae wedi bod yn gyfnod prysur dros ben acw.

Bu Eisteddfod yr Urdd yn Y Bala yn ystod mis Mai yn llwyddiant mawr gyda'r stondin Trydydd Sector wedi denu cynulleidfifa dda pob dydd a thrwy'r wythnos. Mae cynnig gofod i fudiadau a phrosiectau trydydd sector mewn digwyddiadau cenedlaethol bellach yn rhan bwysig o'n gwaith. Heb i ni gyd-lynu y gweithgareddau a'r stondin go brin y byddai mudiadau yn medru fforddio i gael presenoldeb mewn digwyddiadau mawr o'r math yma. Bu'n bleser mawr cyfrannu at y digwyddiad a medru cefnogi mudiadau i gael presenoldeb yno.

Fel y gwelwch o'r newyddlen bu dathliadau gwerth chweil ar gyfer Wythnos Gwirfoddoli hefyd, ac eleni yn ben blwydd 30 mlynedd ers dechrau "dathlu" gwirfoddoli. Yn ogystal ag amrywiol ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos ar hyd a lled Gwynedd cawsom uchafbwynt godidog mewn seremoni yn Galeri, Caernarfon. Braf oedd croesawu yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC i'n plith i gyflwyno gwobrwyon arbennig ac ymuno yn y dathliadau. Mae Dafydd El yn gennad gwych a phwysig i'r trydydd sector yng Nghymru. Cawsom enwebiadau gwerth chweil ar gyfer y dathliadau ac mae seremoni o'r math yma wastad yn ein hatgoffa am y gwahaniaeth mae gwirfoddoli yn ei wneud a'r pwysigrwydd o ddiolch i wirfoddolwyr am eu cyfraniadau. Byddai Gwynedd yn lle tlotach o'r hanner heb yr holl wirfoddolwyr sydd yn cyfrannu yn ddyddiol i'n cymunedau ac felly yn gwella ansawdd bywyd cymaint o drigolion.

Yn olaf mae'n bleser mawr cael dweud ein bod bellach yn berchnogion adeilad sylweddol yn Nolgellau. Bu trafodaethau ar y gweill ers tro rhyngom â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Nhw oedd perchnogion Hen Swyddfa'r Heddlu, Dolgellau ac, er bod swyddfa Mantell Gwynedd wedi ei lleoli yno ers rhai blynnyddoedd bellach, cawsom gyfle i brynu'r adeilad yn ddiweddar. Mae'r buddsoddiad mewn adeilad sylweddol yn Ne Gwynedd yn rhoi sawl neges bwysig allan i'r byd. Yn gyntaf mae yn dweud ein bod fel sector yn parhau i fuddsoddi. Ar amser pan mae pob sector arall i weld yn gwaredu adnoddau mae yn braf gweld y trydydd sector yn buddsoddi. Yn ail, mae buddsoddiad yn Ne'r Sir yn arbennig o bwysig gan ei fod yn dangos yn glir pa mor bwysig yw Meirionnydd wledig i'n cynlluniau. Mae yna wastad feirniadaeth wedi bod am ddiffyg adnoddau a gwasanaethau yn Ne'r Sir, felly mae yn bwysig ein bod yn rhoi neges glir am ein hymrwymiad i wasanaethau Mantell Gwynedd yn yr ardal. Yn olaf, mae yn golygu ein bod, o'r diwedd, yn medru creu "hwb" i'r trydydd sector yn Nolgellau a chroesawu nifer o fudiadau trydydd sector atom i Ganolfan Dolgellau er mwyn ein galluogi i gefnogi'n gilydd. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Elfyn Llwyd AS fu'n allweddol i'n penderfyniad i fuddsoddi yn yr adeilad ac i Bwrdd Rheoli Mantell Gwynedd am gefnogi'r pryniant yn unfrydol. Edrychwn ymlaen rwan at yr agoriad swyddogol!

**Tan tro nesa',
Bethan**

CHWILIO AM HER NEWYDD?

Beth am ymuno â
Partneriaeth Tenantiaid a
Phreswylwyr Cartrefi
Cymunedol Gwynedd?
Mae'r Bartneriaeth yn



grŵp o denantiaid a phreswylwyr sy'n dod at ei gilydd o wahanol ardaloedd ar hyd a lled Gwynedd, fel corff i gynrychioli eu cyd denantiaid. Mae'r Bartneriaeth yn gweithio i sicrhau fod llais y tenant yn cael ei glywed ac yn dylanwadu ar benderfyniadau pwysig sy'n ymwneud a'u cartrefi a chymunedau lleol.

Mae'r Bartneriaeth yn chwilio am aelodau newydd, brwdfrydig i ymuno â hwy. Mae'n gyfle gwych i gael dweud eich barn, rhannu syniadau a gwneud ffrindiau newydd yn y broses!

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â **Mari Williams** yn Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar **0300 123 8084/ cymunedol@ccgwynedd.org.uk**.

Cyfieithu Cymunedol

Ydych chi'n fudiad
cymunedol neu
elusennol?



Oes pobl Cymraeg a di-Gymraeg yn eich
cyfarfodydd?

Hoffech chi roi'r cyfle i bawb allu siarad yn
eu dewis iaith?

Mae gan Mentrau Iaith y Gogledd brosiect newydd sydd yn rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Y diben yw cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a chyfieithu ysgrifenedig am bris sydd o fewn cyrraedd grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector.

Os ydych eisiau defnyddio'r gwasanaeth neu angen mwy o fanylion cysylltwch â:

Glyn Jones neu **Esyllt Tudur** ar **01492 642357**
www.cyfieithucymunedol.org

WCVA Catalydd Cymru-Codi Arian ar gyfer Treftadaeth



Mae Catalyst Cymru-Codi Arian ar gyfer Treftadaeth yn brosiect newydd am dair blynedd gan WCVA a ariennir gan Gronfa Treftadaeth Y Loteri. Nod y prosiect yw galluogi mudiadau treftadaeth yng Nghymru i ddatblygu eu gallu i godi arian a dod yn fwy ariannol gynaliadwy.

Bydd tîm Catalydd Cymru yn uwchsgilio a chynyddu hyder, gallu ac effeithiolwydd staff a gwirfoddolwyr wrth godi arian, fel y gallent gynyddu cyllid eu mudiadau o roddion preifat, ffynonellau corfforaethol, ymddiriedolaethau a sefydliadau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gynnig rhaglen ledled Cymru o hyfforddiant, cyngor, cyfleoedd rhwydweithio a darpariaeth o adnoddau ar y we.

Mae'r prosiect yn agored i fudiadau Treftadaeth ledled Cymru, gan gynnwys y canlynol:

- Amgylchedd Hanesyddol
- Treftadaeth Tirwedd a Naturiol
- Diwydiannol, morol a thrafnidiaeth
- Amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau
- Treftadaeth anniriaethol (megis cadwraeth atgofion, neu brosiectau hanes llafar)

Am ragor o wybodaeth ewch i:

<http://www.wcva.org.uk/funding/catalyst-cymru?seq.lang=cy-GB>,

Dilynwch ni ar twitter: **@CatalystCymru** neu ffoniwch **0800 2888 329**

DEUNYDD I'R RHIFYN NESAF O MANTELL

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **14 Tachwedd 2014**

Danfongwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**, Swyddfa Mantell Dolgellau
e-bost: ellenapdafydd@mantellgwynedd.com Ffôn: **01341 422 575**

WYTHNOS GWIRFODDOLWYR YN 30 OED!



Eleni, roedd Wythnos Gwirfoddolwyr, a gynhelir ar wythnos cyntaf Mehefin yn dathlu 30 mlynedd. Prif nod yr wythnos yw Cydnabod, Recriwtio a Gwobrwyo gwirfoddolwyr.

Uchafbwynt yng Ngwynedd oedd Digwyddiad Dathlu a Diolch yn Y Galeri yng Nghaernarfon ar 12fed Fehefin. Roedd hi'n ddiwrnod heluog a chafodd pawb y cyfle i fwynhau teithiau o gwmpas Caernarfon gyda Rhys Mwyn ac ar y trênn ffordd Clacyti Clac i orffen y diwrnod.

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC oedd ein gŵr gwadd ac yn ystod yr achlysur, cyflwynodd dystysgrifau i wirfoddolwyr teilwng ac ymroddgar ar draws Gwynedd i gydabod eu cyfraniadau arbennig.

Yn ogystal, tystysgrifau cydnabyddiaeth cyfraniad arbennig gwirfoddolwyr eleni fel rhan o ddatliadau'r Wythnos yn 30 oed. Enwebwyd 8 o Wynnedd a dyma luniau rhai ohonynt:

Alan Jones – Yn wirfoddolwr brwdfrydig sy'n codi llawer o arian ar gyfer digwyddiad Hwyl Y Bont ym Montnewydd.

Mrs Gwenant Roberts- Yn gwirfoddoli gyda Chanolfan Felin Fach ers dros 20 mlynedd ac yn Gadeirydd y Bwrdd Llywodraethu.



Gwenant Roberts – Canolfan Felin Fach

Rhagor o luniau ar gael ar dudalen 12



Enillydd cenedlaethol Gwirfoddolwr Gwyrdd y Flwyddyn 2014 – Paul Gordon Roberts sy'n gwirfoddoli gyda AGRO.



Alan Jones, gwirfoddolwr gyda Hwyl Y Bont



Mike a Linda O'Donnell enillwyr tystysgrif Canmoliaeth Uchel yn y categori Oedolion. Mae'r ddau yn gwirfoddoli gyda Chanolfan Heneiddio'n Dda Nefyn.

Llwyddiannau gwirfoddolwr ifanc ar gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm.

Llwyddiannau gwirfoddolwr ifanc ar gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm.

Tystysgrif am 50 awr o wirfoddoli:

- Mari Gibbard** – Ysgol Brynrefail
Josh Price – Tegfan Tryfan
Jade Williams – Clwb Ieuenctid Maesgeirchen
Rhys Jones – Tegfan Tryfan
Simeone Ross – Siop Ymchwil Cancr
Florence Williams – Siop Ymchwil Cancr
Sera Jane Whitley – Ysgol Dyffyn Nanlle, Annie's Wyddfa a Bocs
Sioned Williams – Clwb Ieuenctid Tregarth
Rebecca Roberts – Siop Ymchwil Cancr
Cara Glass – Coleg Meirion Dwyfor
Ceri Entwistle – Coleg Meirion Dwyfor
Ashlee Roberts – Coleg Meirion Dwyfor
Tanya Sargeant – Coleg Meirion Dwyfor
Thomas Freeman – Coleg Meirion Dwyfor a Chymdeithas Eryri.
Nathan Sewell – Coleg Meirion Dwyfor a Chymdeithas Eryri.
Naomi Cotterill-Ball – Coleg Meirion Dwyfor a Chymdeithas Eryri
Llion Evans-Ellis – Coleg Meirion Dwyfor a Chymdeithas Eryri
Tom Meurig Roberts – Coleg Meirion Dwyfor.
Rosemary Williams – Coleg Meirion Dwyfor, RSPCA a Chymdeithas Eryri.
Zoe Karen Looms – Coleg Meirion Dwyfor a Chymdeithas Eryri.
Beca Tomos – Clwb Ieuenctid Waunfawr
Catrin Haf Hughes – Clwb Ieuenctid Waenfawr
Shaun Brown – Clwb Ieuenctid Waenfawr

Tystysgrif am 100 awr o wirfoddoli:

- Ffion Haf Roberts** – Royal Voluntary Service a Siop Tenovus.
Ryan Nannes - Siop Ymchwil Cancr
Trystan Jones – Groundworks a Radio Ysbyty Gwynedd.
Ela Mair Owen – Urdd Gobaith Cymru ac Ysgol Brynrefail.
Cerys Gadd – Royal Voluntary Service

Da iawn chi!



Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc



Wedi treulio nifer o flynyddoedd yn rheoli tai bwyta yn Ynys Môn penderfynodd Paul ail-hyfforddi fel athro, a graddiodd o Brifysgol Aberystwyth yn 2012 gyda TAR mewn Hanes a Daearyddiaeth. Yn dilyn cyfnod o addysgu oedolion yn y gymuned

gyda Choleg Menai, hyfforddi pobl ifanc difreintiedig gyda phrosiect Potensial Môn a gweithio gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd ar raglen addysg Y Tywysogion ymunodd â Mantell Gwynedd yn Ebrill 2014 fel Hwylusudd Plant a Phobl Ifanc.

Diddordeb mawr Paul yw hanes Cymru a hanes lleol. Yn 2001 graddiodd o Brifysgol Cymru, Bangor gyda BA Dosbarth Cyntaf mewn Hanes Modern a Chyfoes ac yn ei amser sbâr mae'n hoff o ymweld â henebion gogledd a chanolbarth Cymru. Yn ddiweddar, mae wedi ymuno â'r ymgyrch i achub tafarn Bryngwran ar gyfer y gymuned a'u datblygu'n adnodd cymdeithasol i'r bobl leol.

Digwyddiad Iechyd Da Hydref 17eg, 2014

Cynhelir digwyddiad Iechyd Da eleni yn y Ganolfan Hamdden yn Nolgellau ar ddydd Gwener Hydref 17. Os hoffech fod yn rhan o'r digwyddiad yma eleni a fuasech chi gystal â chysylltu gyda ni yma ym Mantell Gwynedd unai ar:

01286 672626 neu **01341 422575** neu sioned@mantellgwynedd.com

Gwesty Seren

Agorwyd Gwesty Seren yn Llan Ffestiniog yn Ebrill 2014. Mae'r Gwesty wedi ei deilwra a'i ddylunio ar gyfer pobl ag anableddau ac anableddau dysgu, a gall unigolion ddod am wyliau gydag aelodau o'u teuluoedd a/neu ofalwyr.

Erbyn hyn mae Bwyty Bryn yn y Gwesty wedi ei agor ac mae system newydd o ddsbarthu cardiau teyrngarwch wedi cychwyn i alluogi pobl i ddefnyddio Bwyty Bryn am brydau bwyd. Mae'r cynnig yma i unrhyw un sydd ag anableddau corfforol, neu anableddau dysgu, yn fusrrell, yn dioddef gyda dementia, alzheimers neu wedi cael strôc ac yn y blaen, a hefyd i unrhyw berson sydd yn gofalu amdanynt. Os hoffech gymryd mantais o'r cardiau yma, cysylltwch ag **Alex Williams** yn y gwesty ar **01766 513 133**.



Mae Mind Ynys Môn a Gwynedd wedi dechrau gwasanaeth newydd sef 'Amser i Siarad', sydd yn cynnig cymorth un i un cyfrinachol yn y gymuned.

Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli ledled Ynys Môn a Gwynedd mewn lleoliadau addas fel Asda ayb. Am fwy o wybodaeth neu i wneud apwyntiad ffoniwch 01286 685279.

Mae Mind Ynys Môn a Gwynedd hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Choleg Menai a cholegau addysg bellach eraill yn Ynys Môn a Gwynedd, i ddarparu cymorth un i un 'Amser i Siarad' a hyfforddiant hunan-reoli ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed. Ar hyn o bryd mae'r mudiad yn gweithredu ar safleoedd colegau yn Llangefni, Bangor (prif safle Coleg Menai a safle Parc Menai), Glynllifon, Harlech a Dolgellau.

Grwpiau lleol Epilepsi Action Cymru

Bangor: Mae Grŵp Cefnogi Epilepsi Action Cymru yn cyfarfod bob dydd lau cyntaf o bob mis o 7:30yh-9:00yh yn yr Ystafell Seminar Gweithredol yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Pwllheli: Mae grŵp lleol arall wedi ei sefydlu ym Mhwllheli sydd yn cyfarfod yn Pili Palas, 2-4 Stryd y Moch bob dydd Mawrth cyntaf ym mhob mis o 10:30 i 12:30 y bore

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag **Ann Sivapatham** ar **01633 253407** neu e-bost asivapatham@epilepsy.org.uk

Diwrnod o hwyl



Yn ddiweddar, daeth prosiect 'Teulu Ni' a grŵp Gwerin y Coed at ei gilydd am ddiwrnod o hwyl yn yr awyr agored yng Ngwarchodfa Natur Gwaith Powdwr.

Bwriad y fenter oedd dangos

i deuluoedd sut i fwynhau byd natur a chofleidio ein hamgylchedd hardd.

Roedd gweithgareddau'r diwrnod yn cynnwys mynd ar daith i'r pwll trochi i chwilio am greaduriaid, adeiladu lloches yn y coed, a nifer o weithgareddau crefft. Uchafbwynt y diwrnod i nifer o'r plant oedd gweld Warden y Warchodfa yn dal neidr werdd yn y pwll a'i gweld hi'n nofio i ffwrdd yn urddasol ar ôl ei gollwng yn ôl i'r llyn.



Busnesau yn Cefnogi Cymunedau



Busnesau yn Cefnogi Cymunedau
Business Supporting Communities

Mae prosiect Busnesau yn Cefnogi Cymunedau yn ymwneud â chreu a chynnal cysylltiadau cynaliadwy rhwng sefydliadau gwirfoddol a busnesau lleol, gan ddod â chyfoeth o arbenigedd a phrofiad at ei gilydd er budd cymunedau lleol.

Gweithwyr Gwirfoddoli â Chymorth

A fydech yn hoffi i ni eich helpu i ddod o hyd i fusnesau lleol sy'n fodlon i rhoi amser i'w staff i wirfoddoli gyda grwpiau cymunedol. Gallai'r gwaith gynnwys paentio neuadd bentref neu dacluso o amgylch eich adeilad. A oes gennych unrhyw beth yn eich cymuned leol a fyddai'n hoffi ychydig o help ychwanegol?

Gweithwyr Proffesiynol Cefnogi Cymunedau

Os hoffai eich grŵp chi elwa o gefnogaeth broffesiynol ee cyfreithiwr, cyfrifydd, syrfëwr. Byddwn yn edrych ar gynnal prosiectau penodol, dosbarthiadau meist'r a chynorthfeydd felly cysylltwch am fwy o wybodaeth.

Am fwy o fanylion am B2C a sut y gall eich sefydliad cymunedol chi elwa o weithio gyda'i gilydd, ewch i www.b2cwales.co.uk, i gysylltu â **Edwyn Thomas**, Swyddog Prosiect B2C ym Mantell Gwynedd ar **01286 672626** neu edwyn@b2cwales.co.uk



ARIENNIR GAN Y LOTERI



Dorothy yn derbyn cydnabyddiaeth am wirfoddoli hefo Ffrindia'!



Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas AC gyda Dorothy Hughes

Prynhawn dydd Iau Mehefin 12fed, cynhaliwyd Digwyddiad Dathlu a Diolch i Wirfoddolwyr. Gwahoddwyd Dorothy gan ei bod wedi ei henwebu ar gyfer derbyn cydnabyddiaeth am ei hymroddiad dibynadwy â'r berthynas arbennig sydd ganddi gyda'r unigolion.

Cychwynodd gyfeillio hefo dynes hŷn o Bwllheli. Ymhen dim roedd y ddwy wedi dod yn ffrindiau da a byddai'r unigolyn yn cyfeirio ati trwy ddweud bod ei "ffrind" yn dod yno i'w gweld. Erbyn hyn, mae'n cyfeillio hefo 3 unigolyn ac yn rhoi 12 awr o'i hamser yn wythnosol. Dim ond canmoliaeth am Dorothy a glywir gan yr unigolion hynny gyda neges clir eu bod yn edrych ymlaen at ei gweld yn wythnosol, mae'n rhoi pwrpas iddynt godi'n y bore ac yn fwy na dim yn rhoi gwen yn ôl ar eu wynebau. Llongyfarchiadau, i chi Dorothy!

Cyfeillio ar ei orau



Sue Allen ag Elsie Hughes yn cael paned.

Dyma Sue Allen gyda'i chyfaill Elsie Hughes. Maent yn cyfarfod yn wythnosol ac mae Elsie yn helpu Sue i ddysgu siarad Cymraeg. Dyma stori Sue:

Penderfynodd fy ngŵr a finnau ymddeol i Ogledd Cymru ym mis Awst 2008 ac yna ym Medi 2008 dechreuais ddysgu Cymraeg.

Bellach, gallaf ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg yn weddol, ond roeddwn angen ymarfer fy siarad. Gwelais hysbys yn y Goriad, yn chwilio am wirfoddolwyr i Ffrindia' i gyfeillio gyda rhywun. Gan bod yr hysbyseb yn Gymraeg, roeddwn yn gobeithio y byddai'n bosib i mi gael fy mharu gyda rhywun oedd yn siarad Cymraeg ac yn barod i fy helpu.. Cysylltais a Ffrindia', ac ar ôl mynd trwy'r trefniadau angenrheidiol cefais fy mharu gydag Elsie.

Ers mis Chwefror mae Elsie a minnau wedi bod yn mynd allan yma ac acw a darganfod ein bod yn rhannu'r un agwedd at fywyd a hefyd yn rhannu'r un diddordeb mewn cacennau. Mae fy nealltwriaeth o'r

hyn mae hi'n dweud wrthyf a'm hyder i siarad Cymraeg gyda hi yn gwella bob wythnos.

Mae hyn yn gweithio'n dda – Elsie yn cael y cwmni a theithiau allan, a minnau'n cael ei help i siarad Cymraeg yn fwy hyderus.



Wynebu'r Dyfodol

Ar 30ain o Ebrill, cynhaliodd Swyddog 'Creu'r Cysylltiadau' Gwynedd ddigwyddiad 'Wynebu'r Dyfodol' ar y cyd gyda swyddogion Conwy, Dinbych ac Ynys Môn gyda'r bwriad o adeiladu ar y cysylltiad gwaith rhwng y sefydliadau trydydd sector a chomisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru.

Roedd cynrychiolaeth dda o bob un o bedair sir "Creu'r Cysylltiadau" (Gwynedd, Conwy, Dinbych ac Ynys Môn) gyda sbectrwm eang o sefydliadau, yn cynnwys y pedwar awdurdod lleol, y pedwar cyngor gwasanaeth gwirfoddol, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, a sefydliadau cenedlaethol, gyda chydbwysedd da rhwng comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth.

'Roedd y mynychwyr yn awyddus i 'greu partneriaethau effeithiol sy'n gweithio' a datblygu modelau newydd o weithio'. Roedd y drafodaeth hon mewn gwirionedd yn paratoi'r ffordd ar gyfer beth sy'n gorfod digwydd nesaf i wireddu hyn - e.e. mae'r adroddiad llawn i'w gael ar wefan Mantell Gwynedd



Cymunedau Mentrus



Mentrus Member Gyndeithasol Leol

Enterprising Communities



Growing Local Social Enterprise

Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd 2014

Dychwelodd yr Eisteddfod i Feirionnydd eleni, ac roedd Mantell Gwynedd unwaith eto yn falch o fod yn rhan o'r Ŵyl ac i hyrwyddo y gwaith da sy'n digwydd yn y trydydd sector yma yng Ngwynedd. Roedd 11 o fudiadau wedi ymuno â ni yn y babell ac roedd pob mudiad wedi mwynhau y profiad a wedi cael budd o gael hyrwyddo eu gwasanaethau i gynulleidfa eang. Roedd y stondin yn fyrlymus gyda gweithgareddau i bob oedran yn cynnwys gweithgareddau crefft, briwiau ffug, cwis, paentio wynebau, y goeden deulu ac adloniant gan gymeriadau Cyw a Gwibdaith Hen Frân. Er gwaethaf y mwd ar ddechrau'r wythnos roedd Eisteddfod Meirionnydd 2014 yn lwyddiant ysgubol.



ydydd sector yng Ngw



**Mwy o wybodaeth
ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w
gael ar ein gwefan!
www.mantellgwynedd.com**

Gwesty Seren

Yn Ebrill 2014, agorodd gwesty arbennig yn Llan Ffestiniog. Prosiect diweddaraf y fenter gymdeithasol Seren Cyf yw Gwesty Seren. Mae'r gwesty yn cynnig gwyliau ar gyfer pobl ag anableddau neu anableddau dysgu, eu gofawr a'u teuluoedd mewn llety moethus yng nghanol Eryri. Mae yna gyfleusterau arbennig yno yn cynnwys bwyty, ystafell grefftai, ystafell synhwyaidd, ystafell hydrotherapi ac ystafell gemau yn ogystal â'r holl adnoddau a gweithgareddau sydd ar gael ar stepen drws. Mae'n werth mynd draw i ymweld â'r gwesty neu am fwy o wybodaeth ewch i www.gwestyseren.co.uk



Cynnal Cymunedau

Ar ddydd Mercher, 18fed o Fehefin cynhaliwyd digwyddiad Cynnal Cymunedau yng Nghlwb Rygbi Dolgellau. Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd â Chanolfan Cydweithredol Cymru. Pwrpas y diwrnod oedd helpu grwpiau cymunedol ac unigolion sydd yn ystyried cymryd y cam i ddod yn fenter gymdeithasol. Cafwyd cyflwyniadau ar faterion cyfansoddiadol, cyfreithiol, ac ariannol. Roedd y diwrnod yn lwyddiant enfawr gyda nifer o fudiadau'r sir wedi gadael gyda gwell syniad o'r opsiynau sydd ar gael iddynt a pha lwybr fyddai orau iddynt ei ddilyn.



CRONFA BUDDSODDI CYMUNEDOL



Mae'r gronfa yma ar gael i gryfhau a datblygu grwpiau a mentrau o fewn y trydydd sector ledled Gwynedd. Pwrpas hyn yw

galluogi'r trydydd sector (sector wirfoddol) i allu chwarae rhan gyflawn o fewn cymunedau Gwynedd. Gall grwpiau wneud cais am grant cyfalaf a/neu refeniw hyd at uchafswm o £10,000.00.

Y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn 2014-2015 yw :-

30.09.14

a **05.01.15** (yn ddibynnol ar gyllid)

Os oes gennych syniad am brosiect newydd y medr eich cymuned elwa ohono, cysylltwch â Mantell Gwynedd ar 01286 672 626 neu delyth@mantellgwynedd.com neu ewch i www.mantellgwynedd.com
Gall grwpiau wneud cais am hyd at £1,000.00 trwy gysylltu yn uniongyrchol â **Dylan Thomas**, Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar dylan.thomas@ccgwynedd.org.uk neu **0300 123 8084**.

GwirVol

Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc Gwynedd - GWIRVOL.

Mae hyd at £1000 ar gael i brosiectau gwirfoddoli i bobl ifanc!

Dyddiad cau y rownd nesaf yw: 10fed o Hydref, 2014.

Am becyn cais neu i drafod eich syniadau cysylltwch â Gwenllian Dafydd - Gwenllian@mantellgwynedd.com neu ffoniwch (01286) 672626



Llywodraeth Cymru yn agor Cronfa Natur gwerth £6m

Mae Cronfa Natur Llywodraeth Cymru wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ledled Cymru a sicrhau newid sy'n cydnabod y ddibyniaeth ar ffactorau cymdeithasol ac economaidd.

Bydd y gronfa yn cael ei defnyddio i fuddsoddi'n uniongyrchol i wella tir sydd â gwerth ecolegol isel, er enghraifft, drwy sefydlu coetiroedd collddail a gweithio i gynyddu bioamrywiaeth mewn modd sy'n gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i gymunedau.

Does dim ffin ddaearyddol benodol i'r Ardaloedd Gweithredu Byd Natur.

Mae Llywodraeth Cymru'n chwilio am gynigion i weithredu ar y cyd er lles yr amgylchedd naturiol, cymunedau ac economïau lleol. Mae'r gronfa'n agored i bartneriaid sy'n gweithio yn yr Ardaloedd Gweithredu Byd Natur, ar draws sectorau amrywiol gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac mae'r pwyslais ar weithredu ar y cyd. Bydd prosiectau a gefnogir yn rhai sydd â gwerth arfaethedig dros £50,000. Does dim cyfyngiad ar nifer y cynigion y gall mudiad arweiniol eu cyflwyno. Bydd pob cynnig yn cael ei asesu'n unigol.

Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar y gweithgareddau allweddol canlynol: gweithredu i wella dalgylchoedd afonydd; gweithredu ar ecosystemau morol; gweithredu er lles yr amgylchedd lleol; gweithredu i wireddu potensial ein hucheldiroedd; gweithredu i annog arloesi.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau'n gynnar a bydd pob un cael eu hasesu wrth eu cael.

Y dyddiad cau terfynol yw 1 Tachwedd 2014. Am fwy o wybodaeth ewch i:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryrside/consmanagement/natural-resources-management/nature-fund/?skip=1&lang=cy>



UNED SYMUDOL MANTELL

Galwch draw i gael sgwrs â Swyddog CAB yn yr Uned Symudol:

Dyddiad

Gorffennaf 19
Awst 27

Lleoliad

Llanberis
Y Bala

Digwyddiad

Ras Rhyngwladol Yr Wyddfa
Sioe Amaethyddol Meirionnydd



DEWCH IYMUNO Â NI ...

yn Sioe
Amaethyddol
Meirionnydd ar
yr 27ain o Awst
yn Y Bala.



Estynnir gwahoddiad cynnes iawn i chi – holl fudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaeth yn ardal Meirionnydd i ymuno â Mantell Gwynedd yn eu pabell ar gae Sioe Sir Meirion eleni. Yn y gorffennol, mae pabell Mantell wedi bod yn fwrllwm o weithgaredd. Felly peidiwch â cholli cyfle, gallwn eich sicrhau o ddiwrnod prysur yng nghwmni ein gilydd, cyfle i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd ac i rwydweithio â mudiadau eraill. Ffoniwch **Ann** neu **Ellen** ar **01341 422575** – er mwyn sicrhau eich lle.

FFORWM NEUADDAU

Mi fydd y fforwm nesaf yn cael ei gynnal ar yr **17eg o Fedi 2014**. Lleoliad a rhaglen i ddilyn.

Dilyniant o dudalen **Canolfan Gwirfoddoli**

Gwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru 2014

Derbyniwyd oddeutu 200 o enwebiadau drwy Gymru eleni ar gyfer y wobr yma. Dyma rai derbyniodd eu tystysgrifau Canmoliaeth Uchel yn ystod Digwyddiad Dathlu a Diolch:



Huw Harris – AGRO – Canmoliaeth Uchel: Categori Grŵp Gwirfoddol



Peter Smith – Cefnogaeth i Ddiodefwyr – Canmoliaeth Uchel: Categori Oedolyn



Anne Collis – AGRO – Canmoliaeth Uchel: Categori Ymddiriedolwr